

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 2ail Ebrill 2025

Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, B Jones, G Davies, S Evans, E Lewis, R Ashton a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - P Jones

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb. Estynwyd cydymdeimlad i E Lewis am colled ei wraig, Dyfi a cafwyd munud o dawelwch er côf cyn-cynghorydd, Arfon Jones

Cyflwyniadau – Derek Pughe, Un Llais Cymru. Cyflwynwyd gwahoddiad i Cyfarfod Ardal Maldwyn ym Mhontrobert ar yr 8fed o Ebrill 2025

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5ed Mawrth

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Cytynwyd i ofyn i Andy gosod seddu toiled newydd
2. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Diffibrilwr ym Mhandy wedi cael battris newydd. Pob un arall yn iawn
3. “Concealed entrance”, Maes yr Efail – S Reast i osod postyn a drych
4. Parcio o flaen hysbysfwrdd a bainc yn Bont – Arwydd wedi cyrraedd – S Reast i'w osod
5. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – S Reast wedi adrodd at BT/Open Reach eto. Cadarnhawyd fydd y sietyn yn cael ei thocio ym mis Medi a'l fod yn hanfodol i'r gwifren cael ei symud erbyn hyny
6. Arwydd am y toiledau ar y B4518 a'r A470 – Arwyddion wedi cyrraedd. S Reast, B Jones a E Lewis i cerdded o gwmpas y pentref i benderfynnu ble i'w rhoi
7. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – Mae'r coed wedi cael ei thocio ond mae'r sietyn gerllaw angen sylw hefyd. S Reast i ysgrifennu at y perchenog
8. Nawdd Windfall – Mae cais am y nawdd i creu llwybr cerdded o Lanbrynmair i Tafolwern ar y gweill. Fuodd E Lewis ac S Reast yn cwrdd a perchenog y tir i benderfyni ar lleoliad penodol y llwybr ac i drafod materion eraill y prosiect megis cytundeb cyfreithlon. S Reast i ofyn i Aled Jones (Powys) i rhoi cyngor am sut i cysylltu'r llwybr o'r cae i'r ffordd
9. Sbwriel ar y ffordd o Bont i Talerddig – Dealltwyd fod yna grŵp o wirfoddolwyr yn barod i casglu sbwriel. S Reast i cydlyn ymdrechion ar ôl i'r A470 ail agor ac i ymestyn diolchiadau ffurfiol i rheini'n cymeryd rhan
10. Safle Network Rail yn Nhalerddig - Ysgrifennwyd at Network Rail i wahodd cynrichiolydd o Network Rail i cwrdd â'r Cyngor i trafod pryderon trigolion. Yn ystod y trafodaeth yma, cadarnhawyd polisi ynglyn a derbyn ceisiadau am cyflwyniadau yn y

cyfarfodydd – os ydy'r Clerc yn derbyn cais am cyflwyniad, fydd ganddi caniatad i'w drefnu gyda cymmeradwyaeth y Cadeirydd neu'r Is-Cadeirydd hab gofyn i'r Cyngor llawn

11. Cyfrifion terfynnol a'r awdit llawn – Cyflwynwyd y ffigyrau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a cadarnawyd eu fod yn gywir ac yn barod i gynnwys yn yr awdit llawn eleni. Mae awdit llawn yn ddiledus ar gyfer y flwyddyn hon, maent yn digwydd pob 3 mlynedd ac yn llawer mwy cynhwysfawr na'r awdit arferol
12. Newid ffiniau cynrichiolaeth y Senedd – Cyflwynwyd mapiau yn dangos y ffiniau newydd a cadarnhawyd eu fydd yn eu le ar gyfer etholiadau 2026. Fydd ardal Llanbrynmair o fewn etholiaeth newydd Gwynedd-Maldwyn
13. Holiadur am y cae mawr – Cyflwynwyd draft o holiadur i lledaenu o gwmpas y fro yn gofyn am syniadau ar gyfer datblygu defnydd y cae mawr. Cytynwyd i'w dosbarthu
14. Adroddiad bioamrywiaeth – Gwahoddwyd syniadau i gynnwys yn yr adroddiad bioamrywiaeth sydd yn orfodol elenni. S Reast a F Cauley i gydlynu

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont a Llanbrynmair	Ie	Gofynwyd i trigolion cofnodi platiau rhif a'u adrodd trwy safleoedd we OperationSnap neu GoSafe. Cynnigwyd rhoi bwgan brain efo siaced 'high vis' ar ochr y ffordd Cadarnhawyd y dylid gofyn i GoSafe am hyfforddiant ac offer i gwirfoddolwyr eu ddefnyddio i mesur cyflymder traffig.
Twll yn y ffordd rhwng Llan a Dolgadfan	Ie	Cyferbyn a'r draen Newydd – wedi cael ei drwsio
Dŵr ar Pont Grîn	Ie	S Reast wedi adrodd i Powys. Derbynwyd cadarnhad fod y mater o dan sylw Peiriannydd Perygl Llifogydd a Draenio Cynladwy
Arolwg ffordd rhwng Bont a Talerddig ar ôl i'r A470 ail agor		E Davies i ymuno a swyddogion Powys I Edwards wedi gofyn am sylw arbennig i ochr y ffordd rhwng grid gwartheg Belan a'r Fron
Ffordd i Clegyrnant a Blaen Cwm		S Reast a G Mitchell wedi gyrru ar hyd y ffordd i asesu'r difrod. Cafwyd gwybodaeth na fydd fwy o draffig coedwigaeth yn digwydd am cwpwl o flynyddau ac mae trefniadau'r perchnogion yn ansicr yn y dyfodol ar hyn o bryd. Gofynwyd i G Mitchell cydlynu gyda Powys ar gynllyn o drwsio
Ffordd Brook i lawr i Tafolwern		Ochrau yn chwalu
Cerrig ar ochr y ffordd yn Bont		Y mae gobaith y fydd rhain yn cael eu symud ar ôl i'r A470 ail agor

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Dealltwyd fod y gwaith yn mynd yn dda ac ymlaen amser. Disgwylwyd i'r ffordd ail agor ar un ochr ar yr 11fed o Ebrill. Mae draen wedi cael ei drwsio wrth Pont Bel ond mae yna pryder ynglyn ag effeithrwydd ei lleoliad. Mae ymyl y ffordd wrth Glandwr wedi ei drwsio. Disgwylwyd cadarnhad am arwyneb newydd i'r ffordd trwy Pont Bel
Cyflwr y ffordd dros Pont Brics	le	Anhebyg fydd hwn yn cael sylw tra fydd gwaith ar y gweill yn Nolgoch ond fydd y tyllau fwya difrifol yn cael eu lenwi

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Llan Hen Siop	le	LLN06 Caniatad ysgrifenedig wedi cael ei rhoi gan James Brunton, "executor" ewyllus y cyn perchenog. Cadarnhawyd fydd y golau yn cael ei osod yn y misoedd i ddod
Llan	le	LLN05 wedi torri – S Reast i gofyn os gall hwn cael ei wneud ar yr un pryd a'r golau ar yr Hen Siop

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Gwahoddiad gan Un Llais Cymru i Cyfarfod Ardal Maldwyn ar yr 8fed o Ebrill. R Ashton a D Jones i fynychu

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 02/04/25

Cyfrif Cyfredol	£1,921.27
Cyfrif Cadw	£2,970.64
Cyfanswm	£4,891.91
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£4,891.91

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
02/04/25	Cyflog y Clerc - Mawrth	£397.60	Cytunwyd
02/04/25	Treth ac NI ar cyflogau Chwefror	£99.40	Cytunwyd
02/04/25	Border Janitorial Supplies	£61.79	Cytynwyd
02/04/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Mawrth	£90.00	Cytynwyd

02/04/25	Ecodyfi – Llogi offer cyfieithu	£50.00	Cytynwyd
02/04/25	Andrew Mears – Dadbloccio toiledau	£50.00	Wedi talu 06/03/25
02/04/25	Gloversure - Wefan	£25.20	Cytynwyd
02/04/25	Office Express	£46.57	Cytynwyd
02/04/25	E.ON Next - Trydan	£34.69	Cytynwyd
02/04/25	Powys – Treth ar y maes parcio	£477.12	Cytynwyd
02/04/25	S Reast – Seddu toiled a nwyddau i trwsio'r bin halen	£45.93	Cytynwyd
02/04/25	Eisteddfod rhwyngwladol Llangollen	£100.00	Cytynwyd
02/04/25	Cyfraniad i Elusen y Lluoedd Arfog	£100.00	I Edwards yn cynnig £50, G Davies yn eilio. F Cauley yn cynnig £100, E Lewis yn eilio, cytynwyd ar bleidlais o 7:2

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- I Edwards – Parcio ar y cae mawr a'r posibilrwydd o gerrig gan Network Rail
- F Cauley – Step o'r maes parcio i'r llwybr tu allan Canolfan y Gymuned yn sigledig

Cynhelir y cyfarfod canlynol, Cyfarfod Blynnyddol ar Nos Fercher, 7fed mis Mai 2025. Ni fydd materion Cyfarfod Cyffredinol yn cael ei trafod er mwyn canolbwyntio ar materion gweinyddiaeth.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair